INSC020

Ffenestri glân ac arwynebau ffasâd hynod sgleiniog eraill

Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â glanhau ffenestri, gwydr, laminiadau, ffasadau ac arwynebau hynod sgleiniog eraill. Gallai'r rhain hefyd fod yn arwynebau gwydr eraill, fframweithiau, waliau llen, silffoedd ffenestri, ffasgiâu, cwteri neu gladin addurniadol.

Mae'r safon hon yn mynd i'r afael â gwahanol ddulliau glanhau i weddu i'r swydd: glanhau ffenestri traddodiadol, defnyddio polion dŵr estynedig, abseilio neu weithio ar lwyfannau gweithio uchel symudol (MEWP). Mae'n bwysig asesu'r risgiau i chi eich hun, aelodau'r tîm a'r cyhoedd. Rhaid i chi sicrhau bod cyfarpar diogelu personol addas (PPE) a dillad llachar yn cael eu gwisgo a'ch bod yn gweithredu cyfarpar yn ddiogel er mwyn lleihau'r risg i chi eich hun, aelodau'r tîm a'r cyhoedd.

Mae tair elfen i'r safon hon:

1. Paratoi i lanhau'r ffenestri neu arwynebau hynod sgleiniog eraill
2. Gweithredu cyfarpar glanhau ffenestri
3. Cynnal cyfarpar glanhau ffenestri.

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

Paratoi i lanhau'r ffenestri neu arwynebau hynod sgleiniog eraill

1. sicrhau bod gennych gyfarwyddiadau eich sefydliad a'ch bod yn ymwybodol o weithdrefnau diogelwch ar gyfer cyflawni'r gwaith
2. gwneud yn siŵr bod y dillad llachar a'r cyfarpar diogelu personol (PPE) ar gael ac yn cael eu gwisgo trwy gydol y cyfnod glanhau
3. dewis ac arddangos yr arwyddion priodol cyn dechrau glanhau
4. ymweld â'r safle a chynnal asesiad risg manwl, yn enwedig pan fydd angen gweithio ar uchder
5. sicrhau y gellir glanhau yn unol â'r hyfforddiant a'r sgiliau perthnasol a bennwyd ar gyfer y swydd
6. nodi'r cyfarpar mwyaf addas ar gyfer gwneud glanhau (cyfarpar llaw, llafn rwber llyfn, system polion dŵr estynedig, neu gyfarpar addas eraill)
7. sicrhau bod y cyfarpar perthnasol ar gyfer gwneud y gwaith ar gael (rigio diogel, clymau, angorfeydd diogel, rhaffau wrth gefn, ac ati) a'i fod yn cael ei ddefnyddio yn unol â rheoliadau diogelwch perthnasol
8. nodi a bod yn ymwybodol o unrhyw rwystrau posibl fel llinellau p ŵer rhydd, sy'n hongian drosodd ac yn ymwthio allan
9. cymryd rhagofalon i sicrhau nad yw'r cerbyd sy'n cario'r systemau glanhau yn cael ei orlwytho
10. cymryd camau priodol i leihau risgiau sy'n gysylltiedig â gweithio ar ysgolion, llwyfannau gweithio uchel symudol (MEWP) neu ar raffau

Gweithredu cyfarpar glanhau ffenestri

1. nodi'r cyfarpar perthnasol ar gyfer cwblhau'r gwaith glanhau
2. gwirio ac archwilio'r cyfarpar i weld a oes diffygion neu ddifrod arnynt a chymryd camau priodol cyn eu defnyddio
3. sicrhau bod archwiliad o'r cyfarpar yn cael ei gynnal
4. sicrhau bod y cyfarpar glanhau ffenestri yn addas ar gyfer amodau'r safle
5. defnyddio'r technegau perthnasol ar gyfer trin â llaw wrth ddefnyddio chwistrellwyr bagiau cefn
6. dewis cyfarpar glanhau telesgopig nad yw'n hirach na'r arwyneb i'w lanhau

7. sicrhau bod y dŵr sydd wedi'i buro/ïoneiddio yn cael ei ddefnyddio fel nad oes staeniau neu stribynnau ar y ffenestri
8. glanhau'r ffenestri neu arwynebau eraill hynod sgleiniog a mynd i'r afael â'r gwahanol fathau o faw
9. sicrhau bod cyswllt rheolaidd gyda'r aelod staff perthnasol pan yn gweithio ar ei ben ei hun

Cynnal cyfarpar glanhau ffenestri

1. sicrhau bod y systemau tanciau a'r cyfarpar yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol
2. cymryd y camau perthnasol i atal cronni yn y tanc dŵr
3. asesu risgiau posibl o haint yn lledaenu a chymryd camau i'w atal
4. ailosod hidlwyr dŵr yn rheolaidd a dilyn cyfarwyddiadau'r gwneuthurwr ar gyfer gwasanaethu
5. sicrhau bod y cyfarpar glanhau yn cael ei storio mewn man dynodedig pan nad yw'n cael ei ddefnyddio
6. draenio'r tanc a'r hidlwyr pan fydd y cyfarpar glanhau ffenestri wedi bod yn segur am gyfnod estynedig

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod **Paratoi i lanhau'r ffenestri neu arwynebau hynod sgleiniog eraill** *a deall:*

1. cyfarwyddiadau a gweithdrefnau diogelwch eich sefydliad ar gyfer cyflawni'r gwaith
2. pam mae'n bwysig gwisgo dillad llachar a chyfarpar diogelu personol (PPE)
3. yr arwyddion priodol i'w harddangos a'r rhesymau dros wneud hynny
4. sut i gynnal asesiad risg a pham mae'n bwysig ymweld â'r safle
5. gwirio'r offer a'r cyfarpar perthnasol yn drylwyr a'u paratoi ar gyfer y gwaith glanhau
6. pam mae'n bwysig cadw at y gweithdrefnau gweithio ar gyfer y gwaith glanhau
7. y gweithdrefnau diogelwch wrth ddefnyddio cerbydau a pham mae'n bwysig sicrhau nad yw'r cerbyd yn cael ei orlwytho
8. y rhwystrau posibl wrth wneud eich gwaith a sut i gadw'n effro iddynt
9. sut gall y llwyth effeithio ar nodweddion llywio a brecio'r cerbyd
10. y gweithdrefnau diogelwch perthnasol ar gyfer gweithio ar ysgolion, rhaffau neu lwyfannau gweithio uchel symudol (MEWP)

Gweithredu cyfarpar glanhau ffenestri

1. pam mae'n bwysig cynnal archwiliadau rheolaidd o gyfarpar
2. pam na ddylid defnyddio cyfarpar diffygiol ac arwyddion o hyn (e.e. polion wedi treulio neu wedi plygu, ffitiadau rhydd neu wedi treulio)
3. pryd mae angen defnyddio system chwistrellu bag cefn a sut i'w defnyddio'n ddiogel
4. y risgiau sy'n gysylltiedig â gweithredu cyfarpar glanhau ffenestri a sut gellir eu lleihau
5. pam mae'n bwysig dewis cyfarpar telesgopig o'r hyd cywir
6. y technegau trin perthnasol ar gyfer systemau cludadwy
7. y gwahanol ddefnyddiau a ddefnyddir ar gyfer cyfarpar glanhau ffenestri a phryd mae angen eu defnyddio
8. sut i lanhau'r ffenestri neu arwynebau hynod sgleiniog eraill a mynd i'r afael â'r gwahanol fathau o faw
9. â phwy y dylid cadw mewn cysylltiad pan yn gweithio ar eich pen

eich hun

Cynnal cyfarpar glanhau ffenestri

1. y ddeddfwriaeth berthnasol y dylai'r cyfarpar glanhau gydymffurfio â hi
2. pam mae'n bwysig cadw'r tanc dŵr yn lân ac nad oes cronni ynddo
3. sut mae'r bacteria'n lluosi ac yn ymledu a sut i'w atal
4. sut i ailosod hidlwyr dŵr a phryd mae angen gwneud hynny
5. pam mae'n bwysig bod y system tanciau a'r cyfarpar yn cael eu storio yn unol â gweithdrefnau eich sefydliad
6. sut i gynnal a chadw'r cyfarpar glanhau ffenestri sydd wedi bod yn segur am gyfnod estynedig

Ffenestri glân ac arwynebau ffasâd hynod sgleiniog eraill

Datblygwyd gan	Instructus
Fersiwn rhif	1
Dyddiad cymeradwyo	Mawrth 2020
Indicative Review Date	Mawrth 2025
Dilysrwydd	ArHynOBryd
Statws	Gwreiddiol
Sefydliad cychwynnol	Instructus
RCU gwreiddiol	ASTC221
Galwedigaethau perthnasol	Menter manwerthu a masnachol; Mentrau gwasanaeth; Galwedigaethau Elfennol; Galwedigaethau Glanhau Elfennol
Cyfres/Set	Gwasanaethau Glanhau a Chefnogi
Geiriau Allweddol	Glanhau, arwynebau sgleiniog, risgiau, cyfarpar diogelu personol